# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 49 - Haf 2023

# GOLYGYDDOL

Uchafbwynt y flwyddyn i'r Gymdeithas, heb os, oedd y daith anhygoel i Martin Mere ddechrau Chwefror (gweler yr adroddiad oddi mewn), pryd y cawsom dywydd da, cwmni hwyliog a gwledd adaryddol. Diolch i rodd y diweddar annwyl Dewi Jones, Blaenau am noddi'r daith.

Ryw wanwyn a haf digon cymysglyd wnaeth hi i'r adar. Glaw ac oerni yn Ebrill hyd ddechrau Mai ddim yn groesawus iawn i'n hymwelwyr haf ni, ac yna newid sydyn i wres a sychder drwy weddill Mai a'r rhan fwyaf o Fehefin. Dyma'r Mai a’r Mehefin poethaf ers i gofnodion gychwyn, yn ôl y sôn. Mae'n debyg y bu hyn yn ffafriol i rai adar ond ddim cystal i eraill. Er enghraifft, welais i erioed gymaint o dinwennod i fyny yn Nebo 'ma na eleni, ond roedd prinder garw o wenoliaid a gwenoliaid duon, a draw yn ardal Maentwrog, prinder mawr o'r gwybedog brith a thelor y coed. Mae'n siŵr fod y patrwm yn amrywio o ardal i ardal. Sut oedd hi yn eich ardal chi?

O leia fe ddaeth y gog yn ei hamser (yr 22ain o Ebrill) i Bant y Gog yn Nebo 'ma, a bu'n dymor da i weilch y pysgod yng ngogledd Cymru wrth i ambell nyth newydd gael ei gofnodi. Erbyn hyn, ym mis Gorffennaf, daeth gorffen hefyd ar y prif dymor adarydda. Bron bob dim wedi distewi, heblaw'r adar duon, sy'n dal ati i ganu, a llawer o gywion ac oedolion yn bwrw'u plu, ac yn llechu yn y llwyni i osgoi tynnu sylw. Pob lwc iddyn nhw.

**Llun y clawr**: Pâl ger Ynys Gwylan, Aberdaron – Rhodri T. Jones


**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams ac Annwen Breeze Jones

**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@gmail.com)

**Trysorydd**: Huw Dafydd

**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470

**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)

**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol**: gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk


**Cynnwys**:


Taith Martin Mere *Twm Elias* ........................................................... 3

Cofio Peter Hope Jones *Twm Elias* ................................................... 17

Taith Gweilch Glaslyn *Ieuan Bryn* ..................................................... 21

Taith yn ardal Llandecwyn ............................................................... 23


Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau’r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-Coed**

Cyfrannwch i’n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o’n teithiau arCyfrannwch i’n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

www.cymdeithastedbreezejones.org.uhiau ariau.html

# Taith Dewi, i Martin Mere

*Taith er cof am Dewi Jones Blaenau oedd hon, un o aelodau selocaf a mwyaf hwyliog y Gymdeithas o'r cychwyn, ac un oedd yn nabod Ted Breeze yn dda. Roedd Dewi cymaint wrth ei fodd yn dwad ar deithiau ac i weithgareddau eraill y Gymdeithas nes y penderfynodd, cyn inni ei golli mor gynamserol yn 2020, ewyllysio arian i dalu am y daith hon inni i Martin Mere. Diolch Dewi, a diolch i Megan ddaeth hefo ni.*



*"P'nawn da", meddai Belinda wrth ei croesawu i Martin Mere*

Roeddem wedi bwriadu cynnal y daith hon yn 2021, ond fe ddaeth yr hen glwy cofid aflwydd i amharu ar y trefniadau. Eleni amdani felly a Sadwrn, Mawrth y 4ydd oedd y dyddiad a ddewiswyd. Bŷs 16 sedd Clynnog & Trefor yn dechrau codi pobl ym Mhwllheli am 9.30, wedyn Port, Pendryn, Blaenau a Bae Colwyn. Taith hwylus a chyfforddus a chyrraedd erbyn 12.30. Ryw 'chydig cyn cyrraedd, wrth fynd drwy Ormskirk, rywun yn cyfeirio at y toeau llechi Cymreig bendigedig ar yr adeiladau hŷn ynghanol y pentre, o'u cymharu â'r hen doeau cochion (teils) hyll ar y gweddill. Roedd Anwen, un o hoelion wyth y Blaenau wrth gwrs, yn amenio.


Un o staff Martin Mere yn ein croesawu, ac wedi i rai ohonom fynd i nol paned i'r caffi i gael efo'n brechdanau, fe gawsom gyflwyniad bach difyr a chartrefol ganddo am hanes y lle ers ei sefydlu yn 1975 yn un o 10 o ganolfannau'r Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptiroedd (WWT). Rhoddodd wybod inni hefyd pa adar anarferol oedd o gwmpas ar hyn o bryd. Cadw golwg felly am y pibydd torchog, cambig, boda'r gwerni, y crëyr gwartheg a'r crëyr mawr gwyn ac, os yn lwcus iawn, aderyn y bwn.

Allan â ni wedyn erbyn tua 1.15 i gyfarfod â Belinda, wnaeth ein cyfarch, chwarae teg iddi, efo "P'nawn da". Dyma'r unig Gymraeg oedd

ganddi, ond roedd yn ffordd wych o'n croesawu. Un o Melbourne yn Awstralia oedd hi yn wreiddiol ac un o wirfoddolwyr y ganolfan. Fe aeth â ni ar daith o gwmpas y rhan o'r warchodfa lle cedwid casgliad yr Ymddiriedolaeth o adar dŵr o wahanol rannau o'r byd. Cedwid yr adar tramor hyn mewn cyfres o gorlannau oedd yn cynnwys pyllau ac wedi eu hamgau â ffensys, gyda rhai efo rhwydi drostynt. Ymgais oedd hynny i'w hynysu rywfaint rhag y ffliw adar sy' wedi cyrraedd y wlad ac oedd, wrth lwc, heb effeithio ar Martin Mere hyd yn hyn. Er hynny, roedd mwyafrif y pyllau yn agored i'r awyr ac amryw o'n hadar brodorol ni, yn ieir dŵr a chwiaid, yn rhydd i fynd a dwad ac yn cadw cwmni efo'r tramorwyr.

Roedd yn dda iawn gweld pâr o elyrch Bewick oedd wedi dod yma ar eu gwyliau o Siberia bell. Maen nhw ryw 'chydig yn llai o faint na'r elyrch y gogledd welwn ni ar Forfa Glaslyn bob gaeaf, ac efo llai o felyn ar eu pigau.

Yn y 1980$^{au}$ fe arferai criw o ryw hanner dwsin o elyrch Bewick fel y rhain ddod bob blwyddyn i Lyn Cwm Bychan yn y Rhinogydd, ond bu iddynt beidio dŵad wedi hynny. Yr hinsawdd yn c'nesu sy'n cael y bai am hynny am i'r gaeafau feirioli yn yr Iseldiroedd a dwyrain Lloegr fel nad oes angen iddynt ddŵad cyn belled i'r gorllewin erbyn hyn. Colled i ni, ond nhw sy'n gwybod orau.




*Elyrch Bewick*

Yn y gorlan gyntaf, yr hyn oedd yn denu ein sylw yn bennaf oedd y chwiaid mwythblu hyfryd. Y ceiliogod gwyn efo'u capiau duon a gwyrdd golau 'pastel' ar eu gwegil. Eu galwad '*wwwwWWww*' yn union yr un llais ag un ohonom ni wedi rhyfeddu at rywbeth. Mae criwiau bychain o'r rhain i'w gweld yn y gaeaf yn agos at y glannau ar hyd Bae Tremadog.

Amryw o adar cyfarwydd fel chwiaid llostfain, efo'u cynffonnau hirfain, chwiaid pengoch a chwiaid llygad aur, ac amryw o rai tramor hefyd yn cynnwys un fechan lwyd-frown, corhwyaden y Penrhyn *(Anas capensis)* o ddeheudir Affrica yn yr un pwll.



*Ceiliog chwadan fwythblu, a phatrymau difyr yn y dŵr*



*Corhwyaden y Penrhyn*

Fflyd o ryw hanner cant o fflamingos mawr pinc golau yn y gorlan nesa. Fel arfer mae y rhain yn rhydd i grwydro, ond maent yn cael eu cyfyngu dros dro gan rwyd oedd hefyd yn mynd dros eu pennau rhag i adar yn cario'r ffliw fynd atyn nhw. Wrth lwc mae fflamingos yn hapus mewn criw mawr yn agos at ei gilydd, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn ar fin y tymor




*Pawb wrth eu boddau efo'r fflamingos yn dawnsio*



*Y garan corungoch druan. Gobeithio y daw cymar iddo cyn bo hir*


nythu. Roedd llawer iawn ohonynt yn cerdded â'u pennau yn syth i fyny ac yn eu siglo o un ochr i'r llall – de, chwith, de, chwith. Dyma ddawns garu dorfol y fflamingo. Mae yna 6 gwahanol rywogaeth o fflamingos drwy'r byd, a'r fflamingo mawr *(Phoenicopterus roseus)* oedd y rhain, sy'n frodorol i Affrica, yr India a de Ewrop. Roedd Belinda wrth ei bodd yn cyflwyno'r enw Saesneg inni am griw o fflamingos, sef: 'a *flamboyance* of flamingoes' – enw da, efo tinc o gynghanedd hydnoed. Fflyd o fflamingos yn Gymraeg.

Deryn hyfryd oedd garan corungoch Japan *(Grus japonensis)*, ar ben ei hun gwaetha'r modd am iddo golli ei gymar beth amser yn ôl. Deryn tal gwyn hardd efo cap coch ac yn enwog am ei ddawns osgeiddig pan yn cydmaru. Fe adroddais innau hanes y Brolga wrth Beverly, garan llwyd ei liw welais yn Awstralia rai blynyddoedd yn ôl. Yn ôl y chwedl, merch ifanc a dawnswraig o fri oedd Brolga yn wreiddiol, ond am iddi wrthod dod yn gariad i un o ddewiniaid pwerus ei llwyth, fe drodd hwnnw hi yn golofn o lwch, fel a welir weithiau yn troelli ar y paith. Pwyswyd arno i'w throi yn ôl yn fyw, ac fe wnaeth hynny, ond ar ffurf deryn gosgeiddig, llwyd ei liw fel y golofn lwch, ac yn dawnsio'n hyfryd fel y gwna pob un o deulu'r garanod.



*Gŵydd frongoch*

Roedd amryw o wyddau hyfryd i'w gweld yn y gwahanol gorlannau. Yr ŵydd frongoch *(Branta ruficollis)* yn un arbennig o hardd gyda'i



*Gŵydd benrhesog (llun: Wicipedia)*

phatrwm du a choch trawiadol. Mae hon yn nythu yn Siberia ac yn gaeafu ar lannau'r Môr Du yn Wcrain, Bwlgaria a Rwmania.

Un arall drawiadol oedd yr ŵydd benrhesog *(Anser indicus)*, sy'n nythu ger y llynnoedd uchel ar lwyfandir Tibet, ac yn hedfan dros yr Himalayas i aeafu yng ngogledd yr India a Bangladesh. I groesi'r mynyddoedd mawr bydd hon yn hedfan yn uwch nag unrhyw aderyn arall yn y byd, ac fe welwyd rhai yn mynd heibio copa Chomolungma (Everest). Bu effeithiolrwydd ei defnydd o ocsigen mor uchel yn yr awyr yn destun cryn dipyn o ymchwil gan ffisiolegwyr i geisio deall sut mae'r nwy bywiol yn cael ei gymryd gan y gwaed, a gweld os oes gwerth meddygol yn hynny. Mae gan yr ŵydd ysgyfaint mawr, adenydd llydan ar gyfer yr awyr denau, ac ensymau arbennig i gynyddu amsugniad ocsigen i'r gwaed.

Un arall ddifyr oedd yr ŵydd adain-bigog *(Plectopterus gambensis)*. Brodor o gorstiroedd canolbarth a de Affrica yw hon, a daw ei henw o'r sbardunau ar ei hadenydd, a ddefnyddir ganddi i amddiffyn ei nyth a'i chywion. Ni fydd staff Martin Mere yn mentro i'r gorlan ati yn y tymor nythu rhag ofn iddi ymosod. Nodwedd arall yw ei bod ei chig yn wenwynig, o leia yn Affrica, am y bydd yn dewis bwyta mathau arbennig o chwilod, sef chwilod pothelli, sy'n chwistrellu hylif sy'n codi pothelli hegar ar y croen. Gall yr ŵydd eu byta yn ddianaf a bydd gwenwyn y chwilod yn crynhoi yn ei chig.



*Y Nene*

Mae stori y tu ôl i ŵydd Hawaii, neu'r Nene *(Branta sandvicensis)*. Na,

nid o Sir Fflint mae hon yn dod, ond o Ynys Hawaii, yr unig le yn y byd lle roedd i'w chael. Bu bron iddi ddiflannu'n llwyr cyn i Syr Peter Scott, un o sylfaenwyr yr Ymddiriedolaeth Gwlyptiroedd, gael gafael ar rai ohonynt a'u bridio yn Slimbridge. Bu i hynny ei hachub rhag mynd i ddifancoll llwyr, a bellach fe'i hailgyflwynwyd i Hawaii wedi absenoldeb o ddegawdau. Caiff ei gwarchod yno yn dipyn mwy gofalus erbyn hyn.



*Yr ŵydd adainbigog*

Un o ogledd America ydi gŵydd yr eira *(Anas caerulescens)*, sy'n wen heblaw am y blaenau adenydd duon, a'r traed a phig pinc. Hon yn nythu ar y twndra yng ngogledd Canada ac Alasga ac yn gaeafu yn rhannau deheuol yr UD a gogledd Mecsico. Fe ddaeth un o'r rhain i Forfa Glaslyn yn 1980, gan gyrraedd efo'r elyrch y gogledd ym mis Tachwedd a gadael efo nhw y Mawrth canlynol. Tybed a gyrhaeddodd hi yn ôl i Ganada?



*Gŵydd fraith, efo lwmp ar ei phen*

Roeddwn wrth fy modd yn gweld cymaint o adar yr oeddwn wedi eu gweld yn Awstralia 8 mlynedd yn ôl (gw. Llygad Barcud 32, 33 a 34) a Phatagonia y llynedd (Llygad Barcud 47 a 48).

Ymysg yr Awstraliaid ym Martin Mere roedd pâr o elyrch duon *(Cygnus atratus)*. Roedd yr iâr ar ei nyth tra bo'r ceiliog yn patrolio o fewn y gorlan ac yn edrych yn



Yr iâr ar ei nyth

fygythiol iawn efo'i adenydd i fyny. Fiw i neb fynd i mewn i'r gorlan am y byddai'n ymosod yn syth. Fe welais amryw o'r rhain tra yn Awstralia yn 2014 ar y llyn yng ngwarchodfa Tidbinbilla ger Canberra. Fe welwyd alarch du fwy nag unwaith ar Forfa Glaslyn ac yn harbwr Pwllheli dros y blynyddoedd, wedi dianc o gasgliad mae'n siwr oherwydd anodd credu iddo gyrraedd o Awstralia ar ei liwt ei hun.

Deryn arall difyr o Awstralia oedd yr ŵydd fraith *(Anseranas semipalmata)*, sy'n ddu a gwyn, yn sefyll ar goesau gweddol hir, ac efo lwmp go amlwg ar ei phen. Mae hon yn greadures go arbennig - ryfedd hyd yn oed. Hi yw'r unig aelod o'i theulu, cefndres nad yw cweit yn ffitio i deuluoedd y gwyddau na'r chwiaid mewn gwirionedd. Fe'm trawyd pan welais rai yn Tidbinbilla mai pethau digon od oedden nhw; eu siâp braidd yn wahanol yn un peth – lwmp go fawr ar y pen, eu traed yn hanner-gweog, h.y., gwe ddim ond ar waelod bysedd y traed, ac mae'n codi ei nyth, fel nyth brân, yn uchel AR BEN coeden!

Ac os sôn am dderyn od, beth am y sgrechiwr cribog *(Chauna torquata)* yn un o'r corlannau? Corsydd a llynnoedd yng



*Y sgrechiwr*

ngogledd yr Ariannin ydi cynefin hwn ac er ei fod yn Urdd yr *Anseriformes* (elyrch, gwyddau a chwiaid) mae yn ei deulu unigryw ei hun, a'r peth annhebycaf posib i'w gefndryd. Deryn mawr llwyd, maint twrci, efo pen bach a phig byr fel iâr fuarth a thraed gweddol fawr, heb we rhwng y bysedd. Pan oedden ni wrth ei ymyl fe roddodd ddwy sgrech uchel 'cer-aaah!' (sgrechiwr yw ei enw wedi'r cyfan), ac roedd Beverley ein tywysydd wrth ei bodd am mai anaml iawn y clywodd hi o yn sgrechian y tu allan i'r tymor nythu. Yr unig adeg pan mae tebygrwydd amlwg i chwiaid a gwyddau yw pan mae ganddo gywion – cywion bach melyn del fflyffi, yn union fel cywion gwyddau.



*Yr ŵydd benllwyd o Batagonia*

Welais i ddim o'r sgrechiwr pan oeddwn i ym Mhatagonia y llynedd am nad ydi o i'w gael cyn belled i'r de â Dyffryn Camwy. Ond roeddwn yn falch o weld amryw o adar y dŵr Patagonaidd eraill yma. Un oedd yr ŵydd benllwyd *(Chloephaga poliocephala)*, haid fawr ohonynt efo gwyddau eraill ar ddolydd ger Trevelin yn yr Andes. Fe sylwch bod pig hon, fel pigau gwyddau eraill Patagonia, yn fyrrach na phigau ein gwyddau ni.

Un arall oedd chwadan gribog Patagonia *(Lophonetta specularioides)*. Fe welais bâr o'r rhain ar draeth ger aber Afon Camwy nepell o Drerawson. Doedd dim cribau i'w gweld gan y rheiny, oedd wedi gwneud



*Chwadan gribog, efo ryw 'chydig bach o'r grib yn y golwg*

imi feddwl ar y pryd bod y deryn wedi ei gamenwi. Ond yma yn y pwll ym Martin Mere roedd cribau mawr yn dod i'r amlwg, ond ddim ond am ryw 'chydig eiliadau ar y tro ar gefn y pen cyn gostwng eto, wrth i nifer ohonynt gystadlu'n ffyrnig, gan erlid ac ymosod ar ei gilydd ac unrhyw chwadan arall ddeuai o fewn cyrraedd. Mae'n rhaid bod yr hen hormonau bridio 'na wedi dechrau llifo yn barod i greu'r fath ymddygiad!



*Chwadan gribwen*

Un arall gribog oedd y chwadan gribwen *(Lophodytes cucullatus)*. Un fechan ddel iawn o deulu'r chwiaid danheddog ac yn frodor o ogledd America.

Roedd coch, neu frowngoch, yn lliw amlwg ar rai o adar y corlannau. Chwadan goch yr eithin *(Tadorna ferruginea)* yn un, sy'n un fawr oren-goch efo cynffon ddu, ac yn perthyn i'n chwadan yr eithin *(Tadorna tadorna)* gyffredin ni. O ardaloedd y Môr Du a Môr Caspia y daw hon, ac mae ambell un wedi troi i fyny ym Mhrydain o bryd i'w gilydd, ond 'dydy Elfyn ddim wedi gweld yr un yn Port… hyd yn hyn.



*Chwadan goch yr eithin*

Pen browngoch anferth yr olwg oedd gan y chwadan gribgoch *(Netta rufina)*. Twyll ydi'r pen mawr am mai ei steil gwallt sy'n gwneud i'r pen edrych yn fwy nag ydi o. Yn perthyn yn

agos i'n chwadan bengoch *(Aythia ferina)* ni a welir bob gaeaf ar lynnoedd Eryri, yn cynnwys Llyn Garreg Wen ym Morfa Bychan. Mae'n nythu yng nghanolbarth Asia ac yn gaeafu yn ne Ewrop. Ryw 'chydig ohonynt yn dwad i Brydain bob blwyddyn, ac Elfyn yn cadw golwg am hon hefyd.



*Chwadan gribgoch (llun Wicipedia)*

Roedd un o'r corlannau oedd efo rhwyd drosti yn cynnwys amryw o adar difyr dros ben. Er enghraifft, y llwybig *(Platalea leucorodia)* sy'n frodor o dde ddwyrain Ewrop yn bennaf, ond sy' wedi dechrau ymledu i dde Lloegr erbyn hyn. Siawns y bydd yn sefydlu yng Nghymru ryw ddydd.

Criw bychan o'r cambig *(Recurvirostra avosetta)* hefyd. Roedd y cambig yn arfer nythu yn ardal y Wash ar un adeg, ond dinistriwyd ei gynefin wrth i'r corsdiroedd yno gael eu sychu ar gyfer amaethu. Ond yna tro ar fyd adeg Rhyfel 1939-45, pan drowyd y tir yn ôl yn wlyptir i atal yr Almaenwyr rhag glanio yno. Buan y dechreuodd nifer fechan o gambigau ddechrau nythu yno unwaith eto. Mae o'n dal yn dderyn prin ym Mhrydain, ond mae ambell un wedi troi i fyny ym Môn, a hyd yn oed Port dros y blynyddoedd. Yn nes ymlaen yn y dydd roedd yn dda gweld criw o ryw ddwsin o gambigau yn clwydo ym mhendraw y llyn mawr – y Mere – yn y rhan agored o'r




*Welwch chi pam yr enw cambig?*



Corswennol Inca

warchodfa.

Un o'r adar harddaf a mwyaf gosgeiddig welsom ni oedd y gorswennol Inca *(Larosterna inca)*. Wel am dderyn hardd, llwyd-ddu, efo pig a choesau coch, a'r mwstash hir gwyn trawiadol. Yn nythu ar arfordir Periw a hanner ffordd i lawr Chile, mae'n prinhau ac yn cael ei ystyried dan fygythiad gan y cyrff rhyngwladol. Fe wnaeth un ohonynt (roedd ryw hanner dwsin yn y gorlan rwydog) hedfan, gan ddangos y gynffon fforchog sy' mor nodweddiadol o'i deulu.



Un o'r gwyddau gwyran

Gŵydd fechan oedd yn cerdded yn rhydd o gwmpas y safle oedd yr ŵydd wyran. Patrwm du a gwyn clws iawn arni, ac yn aderyn sy'n gyfarwydd ar Forfa Glaslyn a glas-traeth Talsarnau, lle bydd ryw 'chydig ohonynt i'w gweld ymysg yr heidiau mawr o wyddau Canada.

Erbyn hyn roedd bron yn dri o'r gloch ac yn amser inni ei hel hi am y guddfan fawr ar lan y llyn i weld y golygfa drawiadol bwydo'r adar. Draw a ni yn reit sydyn i gael seddi da wrth y ffenestri mawr. Roedd haid fawr gymysg o gannoedd o wahanol adar y dŵr wedi hel wrth y lan ac yn aros yn eiddgar am y bwyd. Cyn bo hir dyma ferch ifanc yn dod



*Anaml yr ydan ni'n cael moethusrwydd fel hyn ar ein teithiau!*

efo llond berfa fawr o ŷd a'i wasgaru o flaen y guddfan. Ac roedd hi'n Gymraes! Wrth glywed llais Ieu Bryn o'r guddfan dyma hi'n ein cyfarch a'n croesawu, a ninnau'n bonllefu gwerthfawrogiad wrth glywed iaith y Nefoedd.

Wel am gyffro ymysg yr adar hefyd! Mi adawa'i i'r lluniau ddweud y stori. Profiad bythgofiadwy, cael bod mor agos at gymaint o adar o wahanol fathau.



*Dewch i'w nôl o!*



*Pawb yn bwydo'n awchus – roedd hi fel ffair yno*

Roedd yna gryn amrywiaeth o adar yn gloddesta: chwiaid yr eithin, chwiaid gwyllt, llostfain, ambell chwiwell a chwtiar, elyrch y gogledd, a gwyddau troetbinc a thalcen gwyn. Pleser mawr oedd eu cael yn bwydo mor agos – reit o flaen ffenestri'r guddfan, ac yn y fath niferoedd.

Yn ddifyr iawn, a doeddem ddim wedi disgwyl hyn, roedd 'na rydyddion yn eu mysg. Roedd amryw o rostogion cynffonddu yn pigo ŷd efo'u pigau hirion, a gwych oedd gweld pibydd torchog, sy'n aderyn go brin yn ein hardal ni, yn eu canol. Anodd iawn yw gwahaniaethu rhwng y rhostog cynffonddu a'i berthynas agos, y rhostog cynffonfraith pan mae nhw ar lawr am fod yr adenydd plygedig yn tueddu i guddio'u cynffonnau – un yn ddu a'r llall yn fraith. Wel 'doedd dim trafferth efo rhain am eu bod wedi chwyddo eu hadenydd a phlu'r cefn nes bod eu cynffonnau yn weladwy iawn – teimlo'n amddiffynnol ynghanol berw'r holl fwydo gwyllt mae'n rhaid.

Roedd yn werth gweld y pibydd torchog yn bwydo efo gweddill yr adar.



*Y gynffon ddu yn amlwg iawn gan hwn*

Mae o tua'r un maint â'r pibydd coesgoch cyfarwydd, ond yn llawer iawn prinnach yn Port a gweddill Gwynedd. Hwn, os ceiliog ydi o, yn ei blu gaeaf. Heb dyfu'r dorch fawr o blu rownd y pen eto fel sydd gan y ceiliog i ddangos ei hun i'r ieir. Torch fawr wen fydd gan hwn tra bydd rhai eraill efo amrywiaeth o liwiau; coch, du, brown neu oren. Doeddwn i ddim wedi gweld un ers blynyddoedd.



*Pibydd torchog, weithiau i'w weld yn Port neu Bwllheli yn y gaeaf*


Cafodd rhai gyfle i grwydro drwy weddill y warchodfa a buont yn ddigon lwcus i weld ambell i dderyn brodorol arall difyr. Meinir yn ddigon lwcus i weld boda'r gwerni, crëyr gwartheg, a hefyd bras y cyrs; Haf a Gareth yn gweld cudyll coch; Huw yn gweld bwncath; Elfyn yn gweld nico a pila gwyrdd; Dafydd yn gweld dryw, a Twm a Ieu Bryn yn gweld un titw cynffon hir yn y coed uwchben y corlannau.

Diwrnod gwerth chweil a choffadwriaeth hyfryd i Dewi. Diolch i Gareth a Gwenan am y trefniadau. Fe aeth pethau fel watsh.

**Twm Elias**

Lluniau: Huw Dafydd, Elfyn Lewis, Haf Meredydd, Dafydd Paul, Gareth Jones a Twm Elias

# Cofio Peter Hope




Un a ddylai yn sicr gael ei gydnabod yn oriel anfarwolion naturiaethwyr Cymraeg a Chymreig yw Peter Hope Jones (1935-2020). Cymeriad hynaws, cymwynasgar, diymhongar a pharod iawn i rannu o'i wybodaeth adaryddol anhygoel, ac am fyd natur yn gyffredinol. Gwybodaeth oedd yn seiliedig ar oes o brofiad ymarferol o gofnodi ac o gyhoeddi yn agos i 150 o erthyglau mewn cylchgronau gwyddonol a sawl cyfrol werthfawr. Mae'n siwr bod rhai ohonoch yn gyfarwydd â'i *Birds of Meirioneth* (1974), ei *Birds of Caernarvonshire* (1976) ar y cyd â Peter Dare, a'i gyfrolau diweddarach ar Enlli.

Er mai yn Saesneg y cyhoeddodd ei ymchwil adaryddol, roedd ei werthfawrogiad o'r Gymraeg yn gadarn. Bu iddo gydweithio efo Ted Breeze Jones ar y gyfrol arloesol *Enwau Adar Cymru* (1973), sef yr ymgais gyntaf yn y Gymraeg i ddarparu rhestr safonol o enwau ar unrhyw grŵp o bethau byw. Roedd hyn bron ddeng mlynedd cyn i banel enwau Cymdeithas Edward Llwyd gychwyn ar waith o'r fath.

Pan yrrodd Peter fywgraffiad o'i yrfa ataf yn 2010, wedi imi ei annog rai blynyddoedd ynghynt i wneud hynny, ynghyd â rhestr o'i gyhoeddiadau, roedd y frawddeg hon ar y nodyn bach oedd gyda'r ddogfen: "Ymddiheurwn am ei sgwennu yn Saesneg, ond cefais erioed wers o Gymraeg!"

Deuai ei fam o Lanrhaeadr ym Mochnant ac roedd ei dad yn gweithio i'r Midland Bank yn y pentre. Ganed Peter yng Nghroesoswallt, ond anaml




y byddai'n cyfaddef iddo gael ei eni dros y ffin chwaith.

Symudodd y teulu i Wrecsam am gyfnod oherwydd gwaith ei dad, ac oddi yno pan oedd Peter tua chwech oed i Brestatyn. Saesneg oedd iaith yr ysgolion y bu ynddynt, yn cynnwys Ysgol Ramadeg Y Rhyl. Yr hyn a achubodd ei Gymraeg oedd ei deulu, yn enwedig taid a nain Meliden, y capel, yr Ysgol Sul a'r Band of Hope.

Daeth yn adarwr brwd o gyfnod cynnar a phan aeth i Brifysgol Bangor yn 1953 i astudio coedwigaeth, ymgymerodd â chyfrifon adar ar lynnoedd ac aberoedd Môn. Wedi hynny aeth i weithio yn yr wylfa adar ar Fair Isle yn yr Alban (1956-57) cyn symud i dde Ffrainc i helpu efo modrwyo adar yn y Camargue. Treuliodd rhywfaint o amser hefyd yn yr Unol Daleithiau.

Yn 1960 cafodd swydd fel warden i'r Cyngor Gwarchod Natur yn Niwbwrch, ac un o'i brosiectau oedd monitro a gwarchod y bod Montague oedd yn nythu ym Môn ar y pryd. Byddai'n mynd â chyrff adar y glannau, os byddai'n eu canfod newydd farw, i Charles Tunnicliffe fyddai'n eu defnyddio ar gyfer ei ddyluniadau a'i baentiadau.

Priodi yn 1964, a symud i Feirion, lle bu'n gyfrifol am naw gwarchodfa. Ond, yn dilyn tor-priodas symudodd i'r Alban yn 1976 gan aros yno am rai blynyddoedd. Yma y gwnaeth, o bosibl, ei gyfraniad pwysicaf. Dyma gyfnod pan oedd tyllu am olew dan wely Môr y Gogledd yn datblygu'n gyflym. Bu'n byw ar ymyl Scapa Flow am y ddwy flynedd nesa, ac yno bu'n gyfrifol am sefydlu cyfundrefn gyfrif flynyddol ar gyfer y poblogaethau enfawr o adar môr oedd yn nythu ar y clogwyni yno. Roedd hyn yn rhan o gynllun yr RSPB a'r llywodraeth i fonitro yr adar môr oedd yn bridio, bwydo a gaeafu yn yr ardal, ac yn sail i unrhyw gymhariaeth cynt ac wedyn petai llygredd yn digwydd o ganlyniad i bwmpio olew i Orkney.

Dyfeisiodd Peter drefn i gasglu cyrff adar wedi eu lladd gan olew i'w mesur a chanfod eu hoed a'u rhyw – cyn hynny ni wneid dim mwy na'u claddu. Daeth hyn yn drefn sefydlog ar gyfer achosion colli olew o hynny ymlaen. Yn 1978 cafodd ei secondio gan yr RSPB i helpu efo drylliadau trychinebus y tanceri olew Amoco Cadiz ar arfordir Llydaw ym mis Ionawr y flwyddyn honno a'r Christos Bitas ym Mhenfro ym mis Hydref.




*Peter ar fwrdd y Prince Madog ym Môr Iwerddon yn 1983 yn cyfri adar a mamaliaid môr (llun: Ivor Rees)*

Aeth i Aberdeen (1979-82) i sefydlu tîm monitro adar y môr ar ran y Cyngor Gwarchod Natur. Eu tasg oedd mapio dosbarthiad gwahanol adar i ddangos lle roeddent yn crynhoi ar wahanol adegau o'r flwyddyn, mewn ymgais i ddarogan pa ardaloedd a pha rywogaethau fyddai'n dioddef fwyaf o effeithiau colli olew. Cafwyd cydweithrediad parod y cwmnïau olew, llongau fferi, cychod cyflenwi a chychod gwarchod pysgodfeydd ar gyfer llawer o'r monitro.

Fel rhan o'r cynllun bu Peter ar rai o'r llwyfannau olew am rai wythnosau ar y tro, yn uchel i fyny yn aml iawn yn cyfri adar ar wyneb y dŵr, a hefyd yn nodi symudiadau y niferoedd mawr o ymfudwyr – teuluoedd y bronfreithod, pincod a hydnoed yr eurben – fyddai'n croesi'r môr rhwng Sgandinafia a'r Alban yn dymhorol. Yn y nos gallai eu hadnabod drwy eu galwadau.

Dychwelodd i Fôn yn 1983, lle bu'n ymgymryd â monitro adar a mamaliaid y môr oddi ar y Prince Madog, llong ymchwil Adran Eigioneg y Brifysgol, a chymryd rhan flaenllaw mewn sawl arolwg ar y glannau, yn cynnwys y cyfrifon blynyddol o'r adar yn nythu ar glogwyni Llŷn (oddi ar y Bugail Enlli) a Môn.

Treuliodd gryn amser hefyd ar Enlli a chasglodd archif helaeth o luniau a gwybodaeth hanesyddol am yr ynys a chyhoeddi ei *Natural History of Bardsey* yn 1988. Roedd yn ffotograffydd o fri, fel y gwelir yn ei gasgliad o luniau o'r ynys, *Between Sea and Sky* (1998), sydd â dyfyniad gan ei gyfaill




RS Thomas dan bob llun. Roedd RS, wrth gwrs, yn adarydd brwd arall. Bu Peter yn olygydd am nifer o flynyddoedd ar yr Adroddiad Blynyddol o adar a bywyd gwyllt Enlli, a chreodd archif hanesyddol helaeth o ddogfennau a lluniau o'r ynys. Cyfrannodd gasgliad hynod werthfawr a thrawiadol i'r archif o'r newidiadau tymhorol, y tywydd, a ffurfiau'r cymylau welodd tra'n aros yma. Mae rhai o'i luniau cymylau i'w gweld ar wefan Llên Natur.

Wedi iddo ymddeol yn 1994 cyhoeddodd gyfrol ddwyieithog swmpus, *Birds of Anglesey/Adar Môn* (2004) ar y cyd â Paul Whalley.

Roedd Peter yn wyddonydd penigamp gydag agwedd gyfannol iach, ysbrydol hydnoed, wnaeth adael argraff ddofn ar y rhai oedd yn ei nabod. Er gwaetha wynebu problemau iechyd ac iselder ysbryd ar adegau, chollodd o ddim mymryn o'i frwdfrydedd heintus, ei allu i esbonio'n syml a dealladwy faterion ecolegol cymhleth, na'i ddawn i ysbrydoli eraill. Bu'n fraint cael ei nabod.

**Twm Elias**

**Cambig**

Fel yr adroddir ar dudalen 12, fe welsom gambig yn Martin Mere. Gwych yw nodi i'r cambig nythu a magu cywion yn llwyddiannus yng Nghemlyn, Sir Fôn eleni - a hynny am y tro cyntaf erioed. Gobeithio bod hyn yn golygu na fydd yn rhaid i ni deithio cyn belled i weld yr adar hardd hyn yn y dyfodol.



(Llun Andreas Trepte www.avi-fauna.info)

# Gweilch Glaslyn, yr arloeswyr



Addysgol a hynod ddifyr oedd ein hymweliad â chanolfan gweilch Glaslyn ddydd Sadwrn, y 24ain o Fehefin – difyr am fod y golygfeydd o'n cwmpas gyda'r mwyaf trawiadol yng Nghymru gyfan, ac addysgol oherwydd inni gael sgwrs ddiddorol dros ben am y gweilch gan Becci Phasey, swyddog addysg Bywyd Gwyllt Glaslyn, y cwmni elusen di-elw sy'n gwarchod a hybu ffyniant y gweilch.

Cawsom ein hatgoffa ganddi mai ar lannau Glaslyn y nythodd gweilch y pysgod am y tro cyntaf yng Nghymru ers o leiaf bedair canrif, a hynny yng ngwanwyn 2004, gan agor cyfnod arbennig iawn yn hanes adarydda yng Nghymru – cyfnod a welodd nifer y gweilch nid yn unig yn cynyddu'n lleol ond hefyd yn ymledu i ardaloedd fel Cors Ddyfi a Llyn Clywedog yn y Canolbarth, ac i ardal Brenig yn Sir Conwy. Erbyn heddiw, mae gan y gweilch bedwar nyth yn ardal Traeth Mawr yn unig!

Ond nid stori o lwyddiant mohoni i gyd, oherwydd eleni oedd y tro cyntaf mewn ugain mlynedd i walches wreiddiol Glaslyn (a adwaenid fel 'Mrs G') beidio â dychwelyd i Ynysfor. Ni wyddom pam - efallai oherwydd ei hoedran neu'n fwy tebygol am iddi gael anffawd angheuol ar y siwrnai o Gambia i Gymru. Credir mai hi oedd y walches y pysgod hynaf yng Nghymru a Lloegr y llynedd. Fe fagodd 44 o gywion. Roedd hi'n nain i 130, yn hen nain i o leiaf 13, ac fe adawodd pob un o'r rhain eu nyth yn llwyddiannus: cyfraniad clodwiw iawn i boblogaeth gweilch y pysgod yng

Nghymru. Bydd lle anrhydeddus iddi, heb os, yn y llenyddiaeth ryngwladol am weilch y pysgod.

Yn ei chyflwyniad llawn gwybodaeth, wnaeth Becci ddim oedi'n ormodol gyda'r siom enfawr i'r gwirfoddolwyr. Roedd ganddi stori obeithiol newydd, oherwydd yn dilyn y dyddiau digalon ar ddechrau'r tymor nythu eleni, pan welid Aran (cymar Mrs G ers oddeutu 6 mlynedd) yn loetran am ddyddiau ar ymyl y nyth yn disgwyl am Mrs G (ffurf gryno ar 'Mrs Glaslyn'), daeth cymar newydd i mewn i'w fywyd, ac er na chymerai Aran fawr o sylw ohoni ar y dechrau, fe gynheuwyd y fflam anochel ynddyn nhw ymhen dim o dro, ac ar ddiwrnod ein hymweliad ni, roedd gan Aran ac Elen (a enwyd ar ôl un o gopaon Eryri) ddau gyw atebol iawn.

Mam am y tro cyntaf ydi Elen, a difyr oedd clywed fel y bu'n rhaid iddi, fel unrhyw fam newydd, feistroli sgiliau bwydo am y tro cyntaf, a gloywi'r sgiliau hefyd, dan lygaid beirniadol Aran, a fyddai mae'n debyg yn gorfod dangos iddi, o 'bryd' i'w gilydd, sut roedd cael tameidiau bach o 'sgodyn amrwd i bigau symudol a sigledig y cywion!

Diddorol deall bod Aran hefyd wedi bod wrthi'n diweddaru rhai o'i sgiliau yntau – yn benodol, o ran cynnig mwy o amrywiaeth yn y fwydlen i'r cywion, a'i fod y dyddiau hyn yn darparu llai o fingryniaid a mwy o frithyll brown - a hyd yn oed ambell frithyll enfys i swper!

Calonogol dros ben i mi ydi'r gwaith rhagorol y mae Becci yn ei wneud gydag ysgolion yr ardal. Fe fydd hi'n ymweld ag ysgolion yn rheolaidd. Mae hi wedi paratoi adnoddau addysgol o safon ar eu cyfer, ac mae'r plant a hithau wedi gweithio ar sawl prosiect gyda brwdfrydedd mawr. Dywedodd hefyd ei bod hi'n arbennig o falch o'r gofod a'r cyfleusterau sydd yna yng Nghuddfan JP i gynnal dosbarthiadau i'r plant. Byddai JP wrth ei fodd efo hynny.

Mae clod mawr yn ddyledus i Gwenan Williams (cadeirydd Bywyd Gwyllt Glaslyn am sawl blwyddyn) am ei harweiniad yn cynnal Cymreictod y ganolfan a'r cwmni, ac am ei gwaith diflino'n ymgysylltu gyda chymunedau lleol. Pob clod hefyd i Heather Corfield, rheolwraig wybodus a hynod o effeithiol y ganolfan, ac i'r holl wirfoddolwyr diwyd.

Diolch ichi am ddiwrnod cofiadwy mewn amgylchedd naturiol, croesawgar a dirodres; a hir y parhaed llwyddiant rhyfeddol ac arloesol Gweilch Glaslyn.


**Ieuan Bryn**

# Taith yn ardal Llandecwyn



Denodd dechrau Mai ni ar daith yn ardal hyfryd Llandecwyn. Er bod darogan glaw, roedd hi'n fore sych wrth i ni gychwyn o gartref Anwen ger Llyn Tecwyn Isaf, a diolch iddi am ganiatáu i ni wneud hynny, gan arbed inni orfod ymlafnio i fyny'r allt serth o Gilfor.

Wrth i ni gyrraedd y llyn, fe wnaethon ni ddychryn pibydd y dorlan, gwaetha'r modd, ac mi ddiflannodd i'r tyfiant ar y lan. Ymlwybro drwy goedwig hynafol wedyn â'n gobeithion yn uchel, ond yn anffodus, 'doedd yna fawr o adar i'w gweld. Serch hynny, cawsom sioe fendigedig o flodau gwanwyn, ac roedd yn dda cael Twm a Dafydd Paul efo ni i'w henwi i gyd. (Gweler y clawr cefn.)



Ymlaen â ni wedyn heibio Plas Llandecwyn, gan oedi i fwynhau tamaid o ginio wrth yr eglwys. Yno, cawsom olygfa ardderchog o bâr o farcutiaid yn cylchu'n union ac yn agos uwch ein pennau.

Ysywaeth, tywyllodd yr awyr wrth inni gyrraedd Llyn Tecwyn Uchaf, a dechreuodd bistyllio bwrw. Penderfynwyd mynd yn ôl at y ceir; ond amhosib oedd ei throi hi am adref heb gael golwg ar sioe odidog o fwtsias y gog yn y goedlan o dan gartref Anwen - *'mudion glychau Mai'* ar eu gorau.













Suran y coed
Pabi Cymreig
Blodau'r dderwen

Blodyn y gog
Blodyn coeden afalau
Blodyn gwynt

Eglyn cyferbynddail
Gwlyddyn melyn Mair
Ffa’r gors